








# DAEARYDDIAETH Blwyddyn 10 RhDd1

<p><b>Yr hanner tymor hwn: Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth i'w datblygu:</b></p> <p><b>Syniad Allweddol 1:1 Tirweddau Nodedig yng Nghymru</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li><b>Sgiliau:</b> Bydd y myfyrwyr yn gallu ymchwilio a nodi tirweddau drwy ddefnyddio'r rhyngwrwyd a google earth a chreu map tirwedd, darllen a defnyddio mapiau AO, dehongli hydrograffau.</li> <li><b>Gwybodaeth:</b> Bydd y myfyrwyr yn gwybod y gwahanau fathau o dirweddau nodedig sy'n bodoli yng Nghymru; beth yw safle 'pot mêl'; prosesau afon a phrosesau arfordirol a'u tiffurfuriau cysylltiedig; nodweddion dalgylch afon; ffactorau sy'n effeithio ar gyfradd newid mewn amgylcheddau afon ac amgylcheddau arfordirol; achosion ac effeithiau llifogydd Cumbria</li> <li><b>Dealltwriaeth:</b> Bydd y myfyrwyr yn dangos eu dealltwriaeth o'r cysyniad o gynhwysedd cludo y neu hymchwiliad i Cwm Idwal a pham fod angen rheoli safleoedd 'pot mêl' i leihau effeithiau negyddol; o'r ffactorau sy'n effeithio siâp hydrograff drwy ddadansoddi'r gwahanol siapiau hydrograffau; bod gwahanol brosesau mewn afon ac ar hyd yr arfordir yn creu tiffurfuriau amrywiol, drwy greu diagramau anodedig.</li> </ul>		<p><b>Geiriau/Termau Allweddol:</b> Tirwedd, proses, 'pot mêl' cynhwysedd cludo, strategaethau, dosbarthiad, arfordir, daeareg, ogof, bwa, stac, stymp, pentir, bae, llyfndir tonnau, rhiciau tonnau, erydiad, cludo, dyddodi, sgraffellu, cyrydiad, gweithred hydrologig, athreuliad, ateb, daliant, tyniant,</p>	
<p><b>RhDd 1 – Deilliannau Dysgu Wythnos 1: CA1.2.1</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li><b>Bydd y myfyrwyr yn gallu</b> cofnodi nodweddion basn afon ac yn deall proffil afon, sut mae prosesau afon yn cydweithio i greu nodweddion tiffurfuriau yng Nghymru e.e. sut mae erydiad a dyddodiad yn creu dyffrynnoedd ffurf 'v', rhaedrau, ceunentydd, gorlifdiroedd, ystumiau ac ystumllynoedd.</li> <li><b>Bydd y myfyrwyr yn gallu</b> egluro'r prosesau wrth ffurfio ystum ac ystumllyn gan gynnwys tiffurfuriau ar raddfa llai megis clogwyn afon a llethrau slip.</li> </ol>		<p><b>Meini Prawf Llwyddiant:</b> Dangos dealltwriaeth o drawstoriadau graddiant, proses, sianel a dyffryn. Egluro sut mae prosesau mewn afon yn ffurfio dyffrynnoedd ffurf v, rhaedrau, ceunentydd, gorlifdiroedd, ystumiau, ystumllynoedd a'u nodweddion.</p>	<p><b>Gwaith Cartref RhDd1 1</b></p>
<p><b>RhDd 1 – Deilliannau Dysgu Wythnos 2: CA1.3.1/ 1.2.2</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li><b>Bydd y myfyrwyr yn creu</b> diagram systemau i ddangos llifoedd a storfeydd yn y gylchred dŵr.</li> <li><b>Bydd y myfyrwyr yn gallu</b> deall a dehongli nodweddion hydrograff storm a pa ffactorau sy'n effeithio tebygolrwydd llifogydd</li> <li><b>Bydd y myfyrwyr yn gallu</b> egluro achosion ac effeithiau llifogydd Carlisle.</li> </ol>		<p><b>Meini Prawf Llwyddiant:</b> Creu diagram systemau i ddangos y llifoedd a'r storfeydd a'r hyn sy'n ei effeithio. Llunio hydrograff storm drwy ddefnyddio data. Cwblhau ffeil-o-ffaith ar llifogydd Carlisle.</p>	<p><b>Gwaith Cartref RhDd1 2</b></p>
<p><b>RhDd 1 – Deilliannau Dysgu Wythnos 3: CA1.3.3</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li><b>Bydd y myfyrwyr yn gallu</b> disgrifio, egluro a gwerthuso dulliau o beirianneg caled a medal sy'n amddiffyn lleoedd rhag llifogydd afonydd.</li> <li>Bydd y myfyrwyr yn cwblhau eu ACD.</li> </ol> <p><b>Rhifedd: graff o ganlyniadau arolwg twristiaeth.</b></p>		<p><b>Meini Prawf Llwyddiant:</b> Gallu adnabod tirweddau nodedig yng Nghymru ac esbonio'r ffactorau daearyddol sy'n dylanwadu arnynt. Gallu egluro'r term 'safle pot mêl' ac egluro manteision ac anfanteision twristiaeth yn ogystal â gwerthuso atebion</p>	<p><b>Gwaith Cartref RhDd1 3</b></p> <p>Adolygu ar gyfer ACD- tasg adolygu [GC]</p> <div style="border: 1px solid black; width: 40px; height: 40px; margin: 0 auto;"></div>
<p><b>RhDd 1 – Deilliannau Dysgu Wythnos 4: CA1.1.1/1.1.2</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li><b>Bydd y myfyrwyr yn gallu egluro'r</b> hyn sy'n gwneud tirwedd nodedig yng Nghymru – mathau, dosraniad, lleoliad, nodweddion, unigrwydd.</li> <li><b>Bydd y myfyrwyr yn gallu egluro'r</b> ffactorau sy'n gwneud tirweddau Cymru yn nodedig (e.e. daeareg, defnydd tir, diwylliant, llystyfiant, hinsawdd, prosesau), trwy astudiaeth o Barc Cenedlaethol Eryri a thirwedd nodedig Cwm Idwal.</li> <li>Bydd y myfyrwyr yn gwybod beth yw manteision twristiaeth mewn safleoedd pot mêl yng Nghymru.</li> </ol>	<div style="border: 2px solid blue; padding: 5px; width: 60px; margin: 0 auto; text-align: center;">ACD</div> <div style="border: 2px solid red; padding: 5px; width: 60px; margin: 0 auto; text-align: center;">GRADD</div>	<p><b>Meini Prawf Llwyddiant:</b> Atebion yn cynnwys parcio a theithio/cyfyngiadau traffig/parcio, atgyweirio llwybrau troed / arwyddion / biniau / deddfau / tai fforddiadwy / rheoli llygredd ac ati</p>	<p><b>Gwaith Cartref RhDd1 4</b></p>

<p><b>RhDd1 Deilliannau Dysgu Wythnos 5: CA1.3.1</b></p> <p>1. <b>Bydd y myfyrwyr yn gallu</b> rhestru anfanteision twristiaeth mewn safleoedd pot mêl, gan gynnwys erydu llwybrau troed a chynhwysedd cludo.</p> <p>1. <b>Bydd y myfyrwyr yn gallu</b> adnabod rhai o'r atebion i'r problemau a achosir gan dwristiaeth yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar Eryri, gan gynnwys technegau sydd wedi cael eu defnyddio i atgyweirio ac amddiffyn llwybrau troed Cymru rhag cael eu herydu.</p> <p>2.</p>		<p><b>Meini Prawf Llwyddiant:</b> Nodi manteision ac anfanteision twristiaeth ar Cwm Idwal, diagramau o strategaeth atgyweirio llwybrau a gwerthuso gwahanol strategaethau rheoli.</p>	<p><b>Gwaith Cartref RhDd1 5</b> Cwestiwn arholiad tirffurfiau [GC]</p> 
<p><b>RhDd 1 – Deilliannau Dysgu Wythnos 6: CA1.2.1</b></p> <p>1. <b>Bydd y myfyrwyr yn egluro</b> rôl rôl tonnau wrth siapio ein harfordir.</p> <p>2. <b>Bydd y myfyrwyr yn gallu</b> egluro beth yw'r gwahanol fathau o erydiad arfordirol a sut mae erydu arfordirol yn achosi gwahanol fathau o enciliad clogwyn mewn creigiau cyfnerthedig ac anghynerthedig.</p> <p><b>Bydd y myfyrwyr yn gallu egluro</b> sut mae prosesau arfordirol wedi creu tirffurfiau arfordirol ar hyd morlinau cydgordiol ac anghyrgordiol, (gan ddefnyddio pentiroedd a baeau Llandudno fel astudiaeth achos)</p>		<p><b>Meini Prawf Llwyddiant:</b> Anodi diagram a chynnig esboniadau i ddangos nodweddion ystum - llethrau slip, clogwyni afon, a'r cysylltiad â'r prosesau erydu, dyddodiad, ffrithiant a chyflymder.</p>	<p><b>Gwaith Cartref RhDd1 6</b></p> <p><b>Adolygu ar gyfer AC- tasg adolygu [GC]</b></p> 
<p><b>RhDd 1 Deilliannau Dysgu Wythnos 7. CA1.2.1/ 1.2.2</b></p> <p><b>Bydd y myfyrwyr yn gallu egluro</b> sut mae prosesau arfordirol wedi creu'r tirffurfiau arfordirol ar hyd morlinau</p> <p>1. cydgordiol ac anghyrgordiol, (gan ddefnyddio Pont Werdd Cymru yn Sir Benfro fel astudiaeth achos)</p> <p>2. <b>Bydd y myfyrwyr yn cwblhau eu AC</b> ar dirweddau ac afonydd nodedig.</p> <p><b>Rhifedd: cyfrifo amllder tirlithriadau.</b></p>	<div style="border: 1px solid blue; padding: 5px; width: fit-content; margin: 5px;">AC</div> <div style="border: 1px solid red; padding: 5px; width: fit-content; margin: 5px;">GRADD</div>	<p><b>Meini Prawf Llwyddiant:</b> Esboniadau o erydiad arfordirol gan gynnwys hindreuliad, creigiau a thirlithriadau, daeareg ac erydiad gwahaniaethol. Ffuriant tonnau – tonnau adeiladol, tonnau distrywiol, cyrch a chyfeiriad gwynt.</p>	<p><b>Gwaith Cartref RhDd1 7</b></p>
<p><b>RhDd 1 – Deilliannau Dysgu Wythnos 8: CA1.2.1/1.2.2</b></p> <p>1. <b>Bydd y myfyrwyr yn egluro</b> sut mae prosesau arfordirol wedi creu'r tirffurfiau dyddodol arfordirol megis tafodau, barrau a graeandiroedd.</p> <p>2. <b>Bydd y myfyrwyr yn defnyddio</b> map AO i adnabod gwahanol dirfurffiau arfordirol ac egluro morffoleg yr arfordir.</p>		<p><b>Meini Prawf Llwyddiant:</b> Esboniad o'r prosesau sy'n arwain at ffurfio pentiroedd a baeau, rhiciau tonnau a llyfndiroedd tonnau, ogofau, bwâu, staciau a stympiau, erydiad.</p>	<p><b>Gwaith Cartref RhDd1 8</b></p>